**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

13 Gorffennaf 2023

Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol

Annwyl Eluned, Lesley a Vaughan

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi mynegi pryderon i'r Pwyllgor ynghylch cyflwyno'r gwasanaeth rhagnodi electronig gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn poeni y bydd newid i ragnodi electronig yn cael effaith negyddol ar fferyllfeydd cymunedol, gan na fyddant yn gallu cystadlu â fferyllfeydd yn Lloegr sy'n gwerthu nwyddau dros bellteroedd mawr. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi dweud y bydd gostyngiad yn nifer y presgripsiynau sy'n cael eu cyflenwi mewn fferyllfeydd cymunedol, ynghyd â gostyngiad yn nifer y nwyddau ychwanegol sy'n cael eu prynu pan fo unigolion yn casglu eu presgripsiynau yno, yn debygol o arwain at golli incwm a fydd yn arwain at gau fferyllfeydd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am gau fferyllfeydd cymunedol gan eu bod yn ganolbwynt pwysig i gymunedau gwledig a all hefyd ddenu ymwelwyr i'r stryd fawr a thrwy hynny ddarparu lefel o ysgogiad economaidd i ardal.

Gofynnwn i chi ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Pa asesiad a wnaed mewn cysylltiad â rhoi'r trefniadau rhagnodi electronig ar waith a'r effaith o ran cau fferyllfeydd?

- A wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r effaith benodol ar gymunedau gwledig?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Mark Isherwood AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg